# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Medi 2023

Amser: 13.30 - 16.08

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13477

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)370 – Rheoliadau a Chyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig (Diwygio) (Cymru) 2023**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**2.2 SL(6)371 – Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2023**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**2.3 SL(6)373 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2023**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**2.4 SL(6)375 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2023**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.5 SL(6)367 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 9) 2023**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**2.6 SL(6)368 – Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

### 3.1 SL(6)374 - Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)364 - Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog.

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 5.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

### 5.2 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Dilysu Dulliau Amgen ar gyfer Teipio Salmonela (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog.

### 5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 5.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Adroddiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Prif Weinidog a'r Adroddiad Cysylltiadau Rhyngwladol.

**5.5 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

**5.6 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**5.7 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a gohebiaeth gyda hi: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Safonau Cynnyrch Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gyda'r Gweinidog.

**5.8 Datganiad Ysgrifenedig a Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu) 2023**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog.

**5.9 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) 2023**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog am ragor o wybodaeth.

**5.10 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog am ragor o wybodaeth.

**5.11 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Gweinidog.

**5.12 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**5.13 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am eglurhad pellach.

**5.14 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog.

**5.15 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y  Gweinidog.

**5.16 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y  Gweinidog.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg. . Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Addysg Ddewisol yn y Cartref

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

### 6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog.

### 6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes.

### 6.4 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

### 6.5 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Craffu ar waith Gweinidogion

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog yr Economi at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**6.6 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogeledd, Diogelwch a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

**6.7 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog at y Llywydd.

**6.8 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**6.9 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cywiriad i gofnod 10 Gorffennaf**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**6.10 Gohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog: Cytundebau rhyngwladol: Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth gan y Ddwy Ochr o Gymwysterau Proffesiynol**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â’r Prif Weinidog.

**6.11 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 6) ynghylch y Bil Caffael.**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y  Gweinidog.

### 6.12 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y  Gweinidog.

### 6.13 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, a'r ohebiaeth gan y Gweinidog at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

### 6.14 Cyflwyniadau ysgrifenedig: Ymchwiliad Llywodraethiant y DU-UE

Nododd y Pwyllgor y cyflwyniadau a ddarparwyd i'r ymchwiliad.

### 6.15 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog.

### 6.16 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Craffu ar waith Gweinidogion

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 6.17 Gohebiaeth oddi wrth y Prif Weinidog: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 6) ynghylch y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2).

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 9 Cytundebau rhyngwladol

Nododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- Protocol Derbyn Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i Gytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP);
- Confensiwn y DU-Norwy-Liechtenstein-Gwlad yr Iâ ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol;
- Protocol yn diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd ("Protocol Palma");
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr y DU-Canada;
- Trafnidiaeth Ffyrdd Rhyngwladol y DU-Azerbaijan;
- Cytundeb Gwasanaethau Awyr y DU-Saint Vincent a'r Grenadines.

Cytunodd y Pwyllgor i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Croesawodd y Pwyllgor benderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â chychwyn y broses graffu cyn cadarnhau ar gyfer y Protocol ar Dderbyn Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i'r CPTPP am o leiaf dri mis, a fydd yn caniatáu mwy o amser i bwyllgorau wneud gwaith craffu ar y protocol sydd wedi'i gyhoeddi.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â dau o'r cytundebau: Confensiwn y DU-Norwy-Liechtenstein-Gwlad yr Iâ ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol a'r Protocol yn diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i dynnu sylw pwyllgorau perthnasol Senedd Cymru a Senedd y DU at y cytundebau rhyngwladol.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Ardrethu Annomestig

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.